**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg. Sefydliadau Cathdai – Amodau Trwydded**

**DEDDF SEFYDLIADAU LLETY ANIFEILIAID 1963**

**Fersiwn 1 diweddarwyd 14.2.23**

## Cyflwyniad

1. Oni bai y nodir yn wahanol, mae'r amodau hyn yn berthnasol i bob adeilad ac ardal y mae gan gathod fynediad iddynt a/neu sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â lletya cathod.

**Mae'r defnydd o'r term 'uned' yn cyfeirio at ardaloedd lle mae cathod yn cysgu ac yn ymarfer corff ynddynt.

## Arddangos Trwydded

2. Rhaid i gopi o'r drwydded a'i hamodau gael ei harddangos i'r cyhoedd mewn safle amlwg ac addas yn, ar neu yng nghyffiniau'r sefydliad lletya.

## Adeiladau

Cyffredinol

3. Rhaid i'r sefydliad bob amser gael ei gynllunio a'i weithredu yn unol â chynllun wedi'i gymeradwyo, a'i atodi i'r drwydded. Cyn gwneud unrhyw newidiadau, rhaid cyflwyno cynlluniau i swyddog trwyddedu'r awdurdod lleol a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo ganddo.

4. Rhaid adeiladu pob uned newydd ar seiliau concrit â chroen atal lleithder i Safonau Rheoliadau Adeiladau. Dylai'r llawr wyro i 1 mewn 80 o leiaf. (Gweler 15)

5. Dylai'r holl bren allanol fod yn llyfn, a dylid ei drin yn briodol i'w atal rhag pydru. Dim ond nwyddau nad ydynt yn wenwynig i gathod y dylid eu defnyddio.

6. Dylai pob arwyneb mewnol a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drws fod yn llyfn, yn wydn ac yn anhreiddiadwy. Ni ddylai unrhyw ran o'r adeiladwaith ymestyn allan, neu fod ag ymylon garw a allai achosi anaf. Rhaid i unrhyw bren sy'n cael ei

ddefnyddio gael ei orchuddio a'i warchod gan ddeunydd anhreiddiadwy. Nid yw paentio / trin pren yn dderbyniol.

Nid yw pren yn addas ar gyfer adeiladau newydd.

**7.** Rhaid inswleiddio ardaloedd cysgu'r unedau fel nad ydynt yn rhy oer neu'n rhy gynnes. Dim drafft.

**8.** Dylai deunydd ffensio fod yn ddiogel.

**9.** Rhaid adeiladu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch y gath.

**10.** Dylid rhoi to ar bob ardal y mae'r cathod yn rhydd i grwydro ynddynt. (Gweler 17)

Waliau

**11.** Rhaid i'r waliau y mae cathod yn dod i gysylltiad â nhw fod o ddeunyddiau llyfn ac anhreiddiadwy, ac yn hawdd i'w golchi. Lle mae'r waliau wedi'u gwneud o goncrit neu flociau adeiladu eraill, rhaid eu selio i'w gwneud yn llyfn ac anhreiddiadwy, a'i hail-selio yn ôl yr angen.

**12.** Dylid rhoi cilfwâu rhwng adrannau fertigol a llorweddol. Os yw hynny'n anymarferol mewn safleoedd sy'n bodoli eisoes, dylid selio pob uniad.

**13.** Rhaid rhoi rhwystrau tisian ar hyd unrhyw fwlch rhwng unedau sy'n llai na 625mm (2 droedfedd).

Lloriau a seiliau concrit

**14.** Dylai sail concrit a llawr pob adeilad ac uned fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau llyfn, anhreiddiadwy, ac hawdd eu golchi. Ymhob cathdy newydd, dylai'r llawr gynnwys croen atal lleithder.

**15.** Dylai lloriau'r unedau a'r ardaloedd ymarfer corff unigol gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw yn y fath gyflwr fel eu bod yn atal pyllau rhag cronni. (Gweler amod 4)

Nenfydau a thoeau

**16.** Dylid medru golchi a diheintio nenfydau'n hawdd.

**17.** Dylid rhoi gorchudd o rwyll a deunydd anhydraidd dros bob ardal ymarfer corff a'r coridor diogelwch, a dylai rhan ohono fod yn lled dryloyw.

Drysau

**18.** Dylai pob drws fod yn ddigon cryf i wrthsefyll cael ei daro a'i grafu, a dylid bod modd eu cloi'n ddiogel.

**19.** Lle mae'r ymylon yn fetel, ni ddylai fod perygl o achosi anaf i'r gath.

**20.** Dylid cymryd camau priodol wrth adeiladu i atal clefydau heintus rhag lledaenu, yn enwedig drwy heintiad defnynnol.

Ffenestri

**21.** Dylai pob ffenestr sy'n achosi risg fod yn amhosib dianc ohoni ar bob adeg.

Draeniau

**22.** Rhaid i'r ceginau fod wedi'u cysylltu â'r brif system ddraeniau, neu system waredu carthffosiaeth leol gymeradwy.

Goleuadau

**23.** Pan mae'n olau yn ystod y dydd, rhaid darparu golau yn yr ardaloedd ymarfer corff a chysgu fel bod pob rhan yn gwbl weladwy. Lle mae'n ymarferol, dylai'r golau hwn fod yn olau naturiol.

**24.** Rhaid darparu golau ychwanegol digonol drwy'r sefydliad i gyd.

Awyru

**25.** Dylid awyru'r holl ardaloedd mewnol heb achosi gormod o ddrafftiau lleol yn yr ardal gysgu.

**Nifer yr Anifeiliaid**

Nifer y Cathod a Ganiateir

**26.** Mwyafswm y cathod y gellir eu cadw ar unrhyw un adeg yw (I'W BENDERFYNU GAN YR AWDURDOD LLEOL). Bydd y nifer a ganiateir yn cael ei arddangos yn glir ar y drwydded.

**27.** Rhaid i bob cath gael ei huned ei hun ar wahân, ond gall cathod o'r un cartref rannu uned o faint digonol gyda chaniatâd ysgrifenedig eu perchennog.

**28.** Gellir darparu Unedau Cadw i roi llety dros dro i gath am ddim mwy na 24 awr. Rhaid i'r unedau cadw presennol fod ag arwynebedd llawr o 9 troedfedd sgwâr o leiaf. Wrth adeiladu o'r newydd rhaid i ardal y llawr fod o leiaf 12 troedfedd sgwâr. Rhaid i unedau cadw fod ag isafswm uchder o (0.9m) 3tr.

**29.** Ni chaniateir i anifeiliaid ar wahân i gathod gael llety yn y cyfleusterau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol.

**30.** Rhaid i unrhyw gathod strae a dderbynnir gan y cathdy gael eu cadw mewn ardal ar wahân i'r cathod sy'n cael eu lletya.

<u>Maint yr uned, ei chynllun a'r cyfleusterau ymarfer corff.</u>

**31.** Mewn adeiladau newydd, rhaid i bob uned fod ag ardal gysgu ac ardal ymarfer corff ynghlwm wrthi, sy'n benodol i bob uned unigol.

**32.** Mewn adeiladau newydd rhaid bod gan bob uned ardal gysgu o o leiaf 0.85 metr sgwâr (9 troedfedd sgwâr) ar gyfer un gath, 1.5 metr sgwâr (16 troedfedd sgwâr) ar gyfer dwy gath, ac 1.85 metr sgwâr (20 troedfedd sgwâr) am hyd at bedair cath.

**Gellir dynodi unedau fel rhai addas ar gyfer nifer penodol o gathod, mwy na phedair, yn ôl disgresiwn yr awdurdod trwyddedu.

**33.** Rhaid i'r unedau fod yn 1.8m (6 troedfedd) o uchder o leiaf yn fewnol.

**34.** Dylai'r ardal gysgu fod yn o leiaf 3 troedfedd (91cm) o uchder mewn unedau sy'n bodoli eisoes, ac yn 4 troedfedd (1.22m) mewn adeiladau newydd.

**35.** Rhaid darparu gwelyau addas a chyffyrddus i'r cathod y gellir eu golchi a'u diheintio yn hawdd ac yn ddigonol. Ni ddylid rhoi'r gwelyau lle mae drafftiau. Dylid gwirio'r gwelyau'n ddyddiol, a dylid eu cadw'n lân, yn sych ac yn rhydd o barasitiaid.

**36.** Mewn adeiladau newydd rhaid i bob uned gael ardal ymarfer corff o o leiaf 1.7 metr sgwâr (18 troedfedd sgwâr) ar gyfer un gath; 2.23 metr sgwâr (24 troedfedd sgwâr) ar gyfer dwy gath a 30 troedfedd sgwâr am hyd at bedair cath.

**37.** Rhaid i'r unedau agor allan i goridorau diogel neu ardaloedd diogel eraill fel na all y cathod ddianc o'r safle.

**38.** Ni ddylid defnyddio'r ardaloedd ymarfer corff fel rhai i'r cathod gysgu ynddynt.

**39.** Dylai bod modd i'r cathod fynd i'r ardal ymarfer corff yn rhydd ac yn uniongyrchol.

<u>Hyfforddiant</u>

**40.** Dylid darparu polisi hyfforddi ysgrifenedig. Dylid medru dangos bod staff wedi'u hyfforddi mewn ffordd systematig.

**41.** Rhaid i gyfleusterau gwresogi fod ar gael yn yr uned a'u defnyddio yn ôl gofynion y gath unigol.

**42.** Rhaid bod y gath yn gallu mwynhau tymheredd o 10°c (50°F) o leiaf mewn rhan o'r ardal gysgu.

**43.** Mae angen thermomedrau ym mhob uned ac mae angen cofnodi'r tymheredd ddwywaith y dydd, ar adeg oerach ac adeg boethach i sicrhau bod y tymereddau a ddymunir yn cael eu bodloni.

**44.** Mewn unedau ynysu dylai fod modd cynnal y tymheredd ar lefel sy'n addas i amodau'r gath yn unol â chyngor milfeddyg, a'i gofnodi fel uchod.

<u>Glendid</u>

**45.** Rhaid cadw pob uned, coridor, ardal gyffredin, cegin ac ati yn lân ac yn rhydd rhag casgliadau o faw a llwch. Dylid eu cadw yn y fath fodd fel bod modd rheoli clefydau a chadw cathod yn gyfforddus.

**46.** Dylid golchi pob uned sydd â chath ynddi, bob dydd. Dylid symud yr holl garthion a'r deunydd wedi'i faeddu o bob ardal a ddefnyddir gan gathod o leiaf unwaith y dydd ac yn fwy aml os bydd angen.

**47.** Dylid cadw'r ardaloedd lle mae gwelyau yn lân ac yn sych.

**48.** Dylid darparu hambwrdd ar gyfer carthion y gath mewn man addas bob amser. Dylai fod yn hawdd i'w lanhau ac yn anhydraidd. Dylid gwagio a golchi'r rhain unwaith y dydd o leiaf, ac fel y bo angen yn ystod y dydd os gwelir eu bod wedi'u baeddu'n fwy nag arfer. Dylid rhoi deunydd addas i lawr i'r gath faeddu arno.

**49.** Rhaid i bob uned gael ei glanhau'n drwyadl, ei diheintio a'i sychu ar ôl i gath adael. Rhaid glanhau a diheintio pob gwely a deunyddiau eraill yr adeg honno.

**50.** Dylid darparu cyfleusterau i dderbyn, storio a gwaredu gwastraff yn briodol. Dylid gwahanu gwastraff clinigol sy'n deillio o drin cathod â chlefydau heintus yn ofalus. Dylid cael gwared â gwastraff o'r fath yn derfynol drwy ei losgi.

**51.** Dylid cymryd camau i leihau'r peryglon sy'n codi o lygod mawr, pryfed a phlâu eraill o fewn y sefydliad.

**52.** Rhaid defnyddio cynnyrch glanhau ar gyfer Cathod a gymeradwywyd gan DEFRA.

Cyflenwadau Bwyd a Dŵr

**53.** Dylai pob cath gael ei bwydo'n ddigonol â bwyd addas. Dylid cynnig o leiaf ddau bryd o fwyd y dydd, tua 8 awr ar wahân. Dylai dwr glân fod ar gael bob amser, a'i newid yn ddyddiol neu pan fo angen yn ystod y dydd.

**54.** Dylid bod modd golchi a diheintio cynhwysion bwyta ac yfed yn hawdd, a dylid eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr glân. Gellir defnyddio llestri bwyta tafladwy hefyd.

**55.** Dylid golchi neu waredu cynhwysion bwyta ar ôl pob pryd bwyd.

**56.** Dylid golchi cynhwysion yfed o leiaf unwaith y dydd.

<u>Cyfleusterau Cegin</u>

**57.** Dylid darparu cyfleusterau ar wahân, wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n lân, ar gyfer storio a pharatoi bwyd ar gyfer y cathod.

**58.** Rhaid darparu oergelloedd lle mae cig amrwd a chig wedi'i goginio yn cael ei gadw, a rhaid osgoi unrhyw bosibilrwydd o halogi bwyd.

**59.** Rhaid darparu sinc gyda dŵr oer a phoeth i olchi offer bwyd a llestri bwyta ac yfed. Rhaid darparu basn golchi dwylo ar wahân gyda dŵr oer a phoeth at ddefnydd staff.

**60.** Rhaid darparu cynhwysion ar gyfer storio bwyd, a dylent fod o'r fath wneuthuriad, a chael eu cadw mewn cyflwr cystal fel eu bod yn atal pryfed a phlâu eraill.

<u>Rheoli Clefydau a Brechu</u>

**61.** Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli clefydau heintus ac ymledol a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith y cathod, y staff ac ymwelwyr.

**62.** Rhaid dangos prawf bod gan y cathod sy'n lletya neu sy'n byw yn y llety, frechiadau cyfredol yn erbyn enteritis cathod, clefydau anadlol cathod neu unrhyw glefyd perthnasol arall. Dylai'r cwrs o frechu fod wedi ei gwblhau o leiaf bedair wythnos cyn i'r gath ddechrau lletya, neu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Dylai'r cofnod fod y prawf hwn wedi'i ddarparu gael ei gadw ar y safle drwy gydol yr amser y mae'r gath yn lletya, a'i gadw am 24 mis.

**63.** Rhaid gofyn am brawf rheoli parasitiaid a'i gofnodi.

**64.** Dylid cael cyngor gan filfeddyg os bydd arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. Os yw cath yn sâl neu wedi ei hanafu, dylid dilyn cyfarwyddiadau a roddwyd gan filfeddyg ar sut i'w thrin yn fanwl gywir.

**65.** Rhaid cadw blwch cymorth cyntaf llawn sy'n addas i'w ddefnyddio ar gathod ar y safle bob amser, mewn lle hygyrch.

<u>Cyfleusterau Ynysu</u>

**66.** Dylid darparu cyfleusterau ynysu.

**67.** Mewn cathdai sy'n bodoli eisoes, dylai'r cyfleusterau ynysu gydymffurfio â'r gofynion lletya eraill, ond rhaid iddynt fod ar wahân ac wedi'u hynysu oddi wrth y prif unedau. Rhaid iddynt fod yn 3 metr (10 troedfedd) o leiaf. (Gweler hefyd rheoli tymheredd) Rhaid cael 1 cyfleuster ynysu. Efallai y bydd angen cyfleusterau ynysu ychwanegol os yw'r arolygydd yn teimlo bod maint y safle yn gofyn am fwy.

**68.** Dylid darparu cyfleusterau digonol i atal clefydau heintus rhag lledaenu rhwng yr unedau ynysu a'r unedau eraill.

**69.** Dylid golchi dwylo ar ôl gadael y cyfleusterau ynysu, cyn ymweld â'r unedau eraill.

<u>Cofrestru</u>

**70.** Dylid cadw cofrestr o bob cath sy'n lletya. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gynnwys y canlynol: -

- Dyddiad cyrraedd
- Enw'r gath, unrhyw system adnabod fel rhif microsglodyn neu datŵ
- Disgrifiad, brîd, oedran a rhyw'r gath
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyswllt yn ystod y cyfnod lletya
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y gath
- Dyddiad gadael disgwyliedig a'r dyddiad gadael
- Gofynion iechyd, lles a maeth

**71.** Rhaid cadw'r gofrestr am leiafswm o 24 mis, a dylai gael ei chadw yn y fath fodd fel bod swyddog awdurdodedig yn gallu cael gafael ar y wybodaeth yn hawdd.

**72.** Os yw'r cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi wrth gefn. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i aelodau allweddol o staff y sefydliad ar bob adeg.

Adnabod unedau

**73.** Dylid cofnodi pob uned (e.e. eu rhifo) yn glir, a rhaid bod system yn ei lle sy'n sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am y gath yn yr uned honno ar gael yn hawdd.

Goruchwyliaeth

**74.** Rhaid i berson addas a phriodol fod ar gael bob amser i oruchwylio a delio ag argyfyngau pan fydd cathod yn lletya ar y safle.

**75.** Dylid ymweld â'r cathod yn rheolaidd fel bo'r gofyn o ran eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles.

Rhagofalon Tân

**76.** Rhaid cymryd camau priodol i warchod y cathod rhag ofn bod tân neu argyfyngau eraill.

**77.** Rhaid llunio cynllun gwagio adeilad mewn argyfwng priodol a gweithdrefn i rybuddio am dân, a rhoi copi ohonynt yn y safle i ymwelwyr eu gweld. Rhaid i hyn gynnwys cyfarwyddiadau ynglŷn â lle y dylid symud cathod yn achos tân neu argyfwng arall.

**78.** Rhaid darparu offer ymladd tân yn unol â chyngor gan y Swyddog Atal Tân. Dylai fod diffoddwr tân a synhwyrydd mwg cyfredol o leiaf ym mhob bloc o'r cathdy.

**79.** Rhaid cynnal a chadw offer a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel. Rhaid rhoi dyfais torri cerrynt trydanol ymhob bloc o unedau. Rhaid cynnwys yr holl offer trydanol ar dystysgrif gosod trydanol neu gael brawf PAT at bob eitem.

**80.** Ni ddylid rhoi offer gwresogi mewn lleoliad, neu eu gosod mewn modd a allai greu perygl o dân, neu berygl i gathod.

**81.** Dylid cymryd camau i sicrhau nad oes gormod o wres yn cronni mewn un man, a allai achosi tân.

**82.** Rhaid bod modd seinio larwm yn hawdd yn achos tân neu argyfwng arall.

<u>Cyfoethogi</u>

**8.3** Rhaid trafod cyfoethogi gyda phob perchennog. Mae eu hymddygiad mewn cathdai’n dueddol o newid a gall gweithgareddau cyfoethogi leddfu straen a lleihau cyfnodau o ddiflastod, hyd yn oed mewn cathod nad ydynt yn ‘chwarae’ fel arfer.

Dylid trafod ac ystyried pyst crafu a theganau. Gallwch ofyn i berchnogion ddarparu’r rhain neu eu darparu fel sefydliad ond rhaid glanhau pob eitem a'i diheintio rhwng cathod gyda chynnyrch glanhau wedi’i gymeradwyo gan DEFRA.

Dylai hyn gael ei gytuno ymlaen llaw gyda'r perchnogion cyn i gath gyrraedd cathdy.